O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 69 (Cy. 17)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Slipffordd Ymuno tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 8A, Carreg Brân, Pont Britannia, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed *15 Ionawr 2011*

Yn dod i rym *24 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain i Gaergybi (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Ionawr 2011. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Slipffordd Ymuno tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 8A, Carreg Brân, Pont Britannia, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 24 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn derfynol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darn cyfan o slipffordd ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 8A, Carreg Brân, Pont Britannia, yn Sir Ynys Môn.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn cael ei ddangos gan arwyddion traffig.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 15 Ionawr 2011.

J COLLINS
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.